PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 9 Chwefror 27, 2025 50c.

## Apêl Ffynhonnau Byw

Bydd yr apêl sydd ar y cyd rhwng Cymorth Cristnogol ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sef Ffynhonnau Byw yn cau ar ddiwedd mis Chwefror 2025.

Anfonwch eich holl gyfraniadau at Undeb yr Annibynwyr cyn gynted ag y bo modd. Diolch o galon am eich haelioni.




## Gŵyl Ddewi

Oddeutu 1653 fe argraffwyd y *Llythyr i'r Cymry Cariadus* gan Morgan Llwyd. Wrth ei ddarllen fe ddaw'r darllenydd yn fuan i weld ei fod yn pwysleisio dau beth. Yn gyntaf, roedd Llwyd yn ymwybodol iawn o'i Gymreictod o'r iaith Gymraeg ac yr oedd yn caru ei bobl yn ddirfawr. Yn ei lythyr y mae'n cyfarch ei gyd-Gymry yn llawn teimlad. Yn ail, mae'n galw ar y Cymry i gredu yn Iesu Grist. Dyma'r mynegiant mwyaf o gariad y gallwn ei fynegi i'n pobl, ein dyhead iddynt gael eu cymodi â Duw. Mae'n ysgrifennu fel hyn:




> Ag och och och fod llaweroedd or Cymru ... yn gorwedd yn rhwymyn anwiredd yngwely Babel yn pori yngwerglodd y cythrael i borthi y cnawd, heb adnabod y Duw anweledig ai gwnaeth, nâr Duw bendigedig ai prynodd, nâr Duw caredig sy'n gweiddi wrth ei drysau am gael dyfod i mewn iddynt i aros ynddynt.
>
> Ond ô y Cambero (y cymro, ni wn i moth henw di er fy mod i (drwy oleuni Duw) yn canfod dy naturiaeth di) Nid yw'r un o'r rhain yn adnabod daioni, nag yn ddilyn Duwioldeb, nag yn ehedeg uwchlaw'r haul at breswyliwr Tragwyddoldeb, nag yn gweled drwy ffydd y graig ai

*parhad ar dudalen 2*

## Bryn Iwan

Hyfryd a bendithiol oedd medru cynnal oedfa i neilltuo wyth o ddiaconiaid newydd i wasanaethu eglwys Annibynnol Bryn Iwan yn ddiweddar. Mae dros dri degawd ers i'r eglwys weithgar hon yng ngorllewin Sir Gâr ddewis diaconiaid ddiwethaf. Torrwyd tir newydd i'r eglwys wrth wneud hynny llynedd. Penderfyniad yr eglwys oedd ethol pedair menyw a phedwar dyn am gyfnod o bedair blynedd. Etholir wyth arall i gymryd eu lle yn 2028, fel bod cynifer â phosibl o'r aelodau yn cael chwarae rhan wrth arwain a gwasanaethu'r eglwys.

Cynhaliwyd oedfa gymun ar 2 Chwefror 2025 gan eu gweinidog, Parchg Gareth Ioan, a bregethodd ar yr hanes a gawn yn Actau 6:1-7 ynghylch ethol y saith diacon cyntaf. Yn dilyn yr oedfa roedd plant ac athrawon yr ysgol Sul wedi paratoi paned a phancws i bawb eu mwynhau yn y festri. Dymunwn fendith Duw ar yr wyth diacon a neilltuwyd: Delme James, Meirion Thomas, Nia Jones, Eirlys Phillips, Meinir Davies, Sian Davies-Hill, Mansel Phillips a John Howells. Maent oll eisoes yn cyfrannu'n helaeth at fywyd yr eglwys a braf eu gweld bellach wedi addunedu i wneud hynny fel diaconiaid.

**Gareth Ioan**



# Diolch Gwyn

*Yr ydym eisoes wedi cynnwys erthygl o werthfawrogiad am waith y Parchg Gwyn Elfyn gan aelodau eglwys Bethesda'r Tymbl. Dyma gynnwys yn awr fynegiant o ddiolch am ei lafur caled yng Nghapel Seion, Dre-fach.*



Fel cynulleidfa a chymuned, hoffem estyn ein diolch o waelod calon i'n gweinidog Gwyn Elfyn Jones, am dros ddeng mlynedd o wasanaeth ymroddedig, arweiniad, a chefnogaeth ddiwyro i Gapel Seion, Dre-fach.

### Conglfaen

Mae Gwyn wedi bod yn fwy na gweinidog; mae wedi bod yn gonglfaen i'n cymuned. Wedi'i eni a'i fagu yn ein pentref, dilynodd yn ôl traed ei dad, Tudor Lloyd Jones, gan gofleidio'r alwad i arwain ein heglwys ar adeg o angen. Bu ei ddiweddar dad a'i fam, Mrs Deilwen Jones, yn ddylanwad arweiniol ar ein cymuned ac mae Bethan, ei chwaer, yn dal i gyfrannu at fywyd yr eglwys. Neilltuodd Gwyn ei yrfa lewyrchus fel actor i ymgymryd â mantell y weinidogaeth, gan ddod â chyfoeth o ddoethineb, empathi a chreadigedd gydag ef.

### Amryddawn

Mae Gwyn yn ffigwr cyhoeddus o fri yng Nghymru, yn adnabyddus am ei ddyfeisgarwch a'i dosturi yn cwmpasu meysydd adloniant, chwaraeon ac arweinyddiaeth ysbrydol. Cyn ateb yr alwad ddwyfol, swynodd Gwyn gynulleidfaoedd fel actor cyson ar yr opera sebon boblogaidd, *Pobol y Cwm*, ble bu ei ddawn yn disgleirio am nifer fawr o flynyddoedd. Wedi ymddeol o fyd actio, cychwynnodd Gwyn ar lwybr trawsnewidiol, gan ailhyfforddi fel gweinidog yr Efengyl. Am dros ddegawd mae wedi bod wrth y llyw ysbrydol yn ein heglwys, yn arwain ac yn meithrin y gynulleidfa gyda doethineb a thosturi. Y tu hwnt i'w alwedigaeth ysbrydol, mae ei ymrwymiad i les cymunedol i'w weld yn amlwg trwy ei ymwneud deinamig mewn gwahanol feysydd. Yn fabolgampwr angerddol, bu unwaith yn rhoi benthyg ei arbenigedd i hyfforddi'r tîm rygbi lleol ac arwain y mudiad ieuenctid yng Nghapel Seion, gan adael marc annileadwy ar y rhai y bu'n eu mentora, gan gynnwys ei feibion Rhodri a Rhys.

### Cymrodoriaeth

Mae cyfraniadau Gwyn i'n bywyd ar y cyd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r pulpud. Bu Gwyn yn gadeirydd Menter Cwm Gwendraeth, menter iaith a chymunedol yng Nghwm Gwendraeth am nifer o'i blynyddoedd trawsnewidiol gan gyfrannu'n sylweddol at wead diwylliannol a chymdeithasol yr ardal. Mae ei arweiniad hefyd wedi cyffwrdd nid yn unig â'n heglwys ond hefyd ein chwaer gynulleidfaoedd ym Methesda a Nasareth. Dan ei ofal ef, daethpwyd â'r eglwysi hyn ynghyd mewn ysbryd caredig, gan ffurfio cymrodoriaeth unedig sy'n dathlu ffydd a chymuned.

Mae ei ymroddiad i feithrin newid cadarnhaol wedi gadael etifeddiaeth barhaus ymhell y tu hwnt i'r pulpud. Wrth i ni gydnabod agweddau amrywiol bywyd Gwyn, dathlwn ŵr y mae ei daith yn ymgorffori gwytnwch, amlbwrpasedd, ac ymrwymiad dwfn i les ysbrydol y bobl y mae'n eu gwasanaethu fel catalydd ar gyfer arloesedd a datblygiad cymunedol.

### Gwerthfawrogiad

Dymunwn hefyd ddiolch o galon i Caroline, sydd wedi bod yn bartner diysgog yn y weinidogaeth. Fel organydd dawnus ac arweinydd selog ein hysgol Sul, mae hi wedi cyfoethogi ein haddoliad a meithrin ffydd aelodau ieuengaf ein cynulleidfa. Mae Caroline yn ategu ac yn arwain ei gweinidogaeth ei hun yng Nghapel Seion, yn dilyn traddodiad Mrs Deilwen Jones, ei mam yng nghyfraith. Bydd ei gwasanaeth parhaus yn fendith eto wrth inni symud ymlaen.

Gyda'i gilydd, mae Gwyn a Caroline wedi darparu gwasanaeth hynod i'n heglwys, i bentref Dre-fach a'r gymuned ehangach. Mae ymddeoliad Gwyn yn nodi cyfnod pontio arall, nid diwedd. Tra bydd yn camu i ffwrdd o'i rôl swyddogol, rydym yn gwybod y bydd yn parhau i lunio llwybrau ysbrydol newydd ac yn ein hysbrydoli mewn ffyrdd sydd eto i'w darganfod.

Gwyn a Caroline, diolchwn ichi o ddyfnderoedd ein calonnau am eich defosiwn, eich caredigrwydd a'r cariad yr ydych wedi'i ddangos i bob un ohonom. Bydded i Dduw fendithio'r ddau ohonoch yn y tymor newydd hwn o fywyd a'ch arwain wrth i chi gofleidio'r dyfodol gyda ffydd, gobaith a llawenydd yn eich calonnau.

Bendith arnoch eich dau oddi wrth aelodau a ffrindiau Capel Seion, Dre-fach a'r cylch.

# Gŵyl Ddewi – parhad

cenhedlodd. Ond mae'r bobl yn ceisio'r byw ymysg y meirw, yn chwilio am yr haul ymhyllau'r ddaiar, ac yr wyti yn chwennychu y rhosyn, heb fynnu dyfod ir ardd iw gyrchu ond darfod ar dy draed wrth edrych dros y mur.

Wrth i ni ddathlu ein Cymreictod ar Fawrth y cyntaf dylem ofyn i Dduw roi ynom ni yr un ing ysbrydol oedd yng nghalon Morgan Llwyd dros ei genedl. Roedd yn caru ei genedl ac am weld ei gydwladwyr yn dod i gredu yn yr Arglwydd. Heddiw eto, yr hyn sydd wirioneddol ei angen yng Nghymru 2025 yw i genhedlaeth newydd ddod i ffydd yn Iesu Grist. Rydym yn genedl sydd ar goll hebddo. Dyma yw'r unig beth fydd yn newid ein sefyllfa ysbrydol drychinebus. 'Bywha dy waith o fewn ein tir, arddeliad mawr fo ar y gwir.'



Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 27 2025 RHIF 209

# Paratoi at Ddydd Gweddi'r Byd – yn Albania

Ymhen rhai dyddiau, ddydd Gwener, 7 Mawrth, byddwn yn dathlu Dydd Gweddi'r Byd. Ac fel cynrychiolydd Cymru ar y Pwyllgor Rhyngwladol, cefais y fraint o fynd i sawl cyfarfod paratoi yng Nghymru a Lloegr yn ystod yr hydref. Yna ychydig cyn y Nadolig daeth gwahoddiad i ddwy ohonom sydd ar y pwyllgor cenedlaethol ymweld ag Albania gan fod y wlad yn cael nawdd gennym fel pwyllgor a bod cydweithio rhwng yr eglwysi yno yn anodd.

Felly, cytunes i a Charity Madenyika, gweinidog gyda'r Methodistiaid yn Llundain, i gynrychioli'r pwyllgor yn y gynhadledd. Aethom â nwyddau efo ni gyda logo'r Dydd Gweddi, posteri, taflenni, lluniau a chyflwyniadau ac offer PowerPoint, deunydd crefft a phapurau lliwgar ar gyfer sesiynau crefft, a llyfrau am Gymru.

Fe wnaethon ni lanio yn y brifddinas, Tirana, fin nos ar 30 Ionawr, a daeth y trefnydd lleol, Merita Meko, i'n cyfarfod a'n tywys i'r gwesty, a chawsom swper ysgafn cyn noswylio.



Y bore wedyn tywysodd Merita ni o gwmpas y brifddinas ac eglurodd am ei hanes anwadal ers iddyn nhw fod dan ddylanwad Rwsia.



Ychydig ddyddiau cyn imi ymweld, roedd angladd eu Harchesgob Catholig wedi cael ei gynnal, a syndod oedd bod y torchau blodau yn dal i'w gweld a'u harogl tambaid, nid nepell o Eglwys Gadeiriol Santes Theresa.



Rhyfedd oedd canfod olion o'r Rhyfel Oer a'r cyfnod comiwnyddol – sydd bellach yn weithiau celf.




Bnawn Gwener symudon ni i ganolfan wyliau ar lan y môr yn Duress i gynnal y sesiynau paratoi. Yno roedd stafell bwrpasol inni gynnal gwasanaethau, cynadledda a chael gweithdai. Roedd yn syndod inni mai dim ond Merita a'r gweinidog a'i merch dair ar ddeg oed oedd yn siarad Saesneg, a bu raid iddynt gyfieithu ein hanerchiadau a'n cyflwyniadau PowerPoint. Gwisgai'r chwiorydd ddillad du i sefyll yn gadarn yn erbyn trais ac annhegwch yn erbyn merched, gan fod un diwrnod yr wythnos yn canolbwyntio ar hynny.





Roeddynt yn gwerthfawrogi'n fawr ein cyflwyniadau a'r deunydd yr oeddem wedi ei gludo, gan nad oedd offer o'r fath ganddynt – agoriad llygad i ni sydd â thechnoleg ryngweithiol ar gael ym mhob canolfan, bron.

Y bore canlynol fe ddaeth nifer o gynulleidfa wledig atom i chwyddo'r niferoedd, ac ar ôl y foreol weddi cafwyd astudiaeth Feiblaidd ar Salm 139, sy'n cynnwys thema'r gwasanaeth eleni, 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'.

I ddangos pa mor rhyfeddol ac unigryw ydym ni, fe wnaethom baentio olion ein bodiau.







Bu rhai'n paratoi torchau a blodau i'w gwisgo ar eu pennau, ac fe wnaeth eraill ganŵs fel y rhai sydd i'w gweld yn Ynysoedd Cook. Defnyddiwyd y rhain yn y gwasanaeth i gloi'r penwythnos.

Hyfryd oedd cael cymdeithasu gyda'r nos a chyfnewid traddodiadau cerddorol a dawnsfeydd Cymreig â rhai o Albania. Braint hefyd oedd rhannu yn y moliant wrth fynd drwy'r gwasanaeth fore Sul gan ryfeddu y byddwn drwy'r byd i gyd yn cael ein harwain gan ferched Ynysoedd Cook. Bendith arnoch i gyd.

*Nesta Davies*

# Paratoi ar gyfer tymor y Grawys

Bydd tymor y Grawys eleni yn dechrau ddydd Mercher, 5 Mawrth, ac yn dod i ben ddydd Iau, 17 Ebrill. Mae adnoddau ar gael ar y we ar gyfer nodi Dydd Mawrth Ynyd: Dydd Mawrth Ynyd | Adnoddau Cristnogol Cymraeg i'w lawrlwytho, a hefyd ar gyfer tymor y Grawys a'r Pasg: Y Pasg – Tymhorau | Adnoddau Cristnogol Cymraeg i'w lawrlwytho

**Adnodd newydd**

Mae cyfres o astudiaethau Beiblaidd newydd, wedi eu paratoi gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ar gael ar gyfer y Grawys eleni ar y thema 'Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu'. Maent ar gael i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim o'r wefan: Lent 2025 – Christian Unity in a Fragmenting World - CTBI

Mae'r adnodd hwn yn dilyn thema'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni ac yn ein gwahodd i gymryd golwg ar berthnasedd parhaus cyngor eciwmenaidd cyntaf yr Eglwys a gynhaliwyd yn Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl – adeg arwyddocaol yn hanes ein taith tuag at undod.

Arweiniodd y Cyngor at fabwysiadu Credo Nicea, sy'n dal i fod yn ddatganiad canolog o ffydd i lawer o Gristnogion – er nad i bob un. Mae sawl llwybr wedi ymwahanu ers hynny, a gwelwyd rhwygiadau a sefydlu eglwysi a mudiadau newydd o fewn y teulu Cristnogol. Nod gwaith undod Cristnogol yn ei ffurfiau niferus, o gysylltiadau anffurfiol a chyfeillgarwch i fodelau ffurfiol o ddeialog ddiwinyddol strwythuredig, o'r gymuned leol i lefel ryngwladol, yw dod â ni'n ôl at ein cwlwm o agosrwydd ysbrydol hanfodol a pherthyn yng Nghrist. Gyda'n gilydd gallwn ddilyn yn well yr esiampl a osodwyd i ni gan Iesu o wasanaeth cariadus i bawb, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

Mae cofio Cyngor Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl, wrth i ni i gyd ddathlu'r Pasg, yn gyfle unigryw i fyfyrio ar gynnydd ein taith eciwmenaidd, dyfnhau ein perthynas â'n gilydd ac adnewyddu ein gweledigaeth a'n hymrwymiad.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar y themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn ein myfyrdodau wrth inni gofio'r achlysur pwysig hwn fel Eglwysi Ynghyd, gan wahodd eraill i ystyried beth allai fod yn fwyaf perthnasol yn eich cyd-destun penodol chi a pha gamau y gallech gael eich hysbrydoli i'w cymryd.

Byddwn yn cyhoeddi'r saith sesiwn hyn yn *Cenn@d* dros yr wythnosau nesaf.




Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

## YSGRIFENNYDD GWEITHREDOL EXECUTIVE SECRETARY

Dyma gyfle i arwain tîm bychan sy'n gyfrifol am weinyddiaeth **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen** – elusen Gymreig wedi'i lleoli ynghanol tref Aberystwyth

Dyddiad dechrau'r swydd: 1 Medi 2025

Mae'r gallu i weithio'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon

Dyddiad cau: 18 Mawrth 2025

Manylion llawn ar wefan yr Ymddiriedolaeth: https://www.jamespantyfedwen.cymru/

neu mae croeso i chi gysylltu am sgwrs anffurfiol 01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

## Neges Atgoffa

**Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr, Parc Margam, 26–31 Mai 2025: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul**

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7 o'r gloch nos Fawrth, 4 Mawrth 2025, yng Nghapel y Nant, Clydach, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Margam eleni.

**Y Sioe Fawr, Llanelwedd, 21–4 Gorffennaf 2025: Pabell yr Eglwysi**

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru am 1 o'r gloch bnawn Mawrth, 4 Mawrth 2025, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 2 Mawrth, am 6.45yh – Gŵyl Ddewi**

Bydd Rhodri Gomer yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghaerdydd yng nghwmni criw o wirfoddolwyr sy'n dilyn esiampl nawddsant Cymru drwy wneud y pethau bychain. Bydd gwledd o emynau o Eglwys Gatholig San Pedr, Caerdydd, a chawn berfformiad swynol gan Gôr Bryn Owain o Fro Morgannwg.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 2 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**


Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Evan Morgan

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 2 Mawrth, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal Charlotte Rushden, Pontypridd

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda’n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 8: Gorthrwm a gwaith**

**Llyfr y Pregethwr 4:1–8**

Er bod yna gyfeiriadau at Dduw yn y drydedd bennod, nid oes unrhyw sôn amdano yn y bedwaredd. Yn hytrach, mae’r bennod hon yn canolbwyntio ar weithredoedd dynol, ar yr hyn sy’n digwydd ‘dan yr haul’ (4:1,3,7,15).

**Dagrau’r gorthrymedig**

Yr hyn sy’n taro’r Pregethwr yn gyntaf yw pa mor annheg yw bywyd. Mae’n enwi dau ddosbarth o bobl, sef y gorthrymedig a’r gorthrymwyr. Er nad cyfiawnder a barn a ddaw i’r meddwl gyntaf wrth ystyried neges y llyfr, mae’r awdur yn rhoi sylw yma i un o themâu mawr y Beibl, sef cyfiawnder cymdeithasol, fel y gwelir yn yr adnodau isod.

‘Paid â gwneud cam â’r estron, na’i orthrymu, oherwydd estroniaid fuoch chwi yng ngwlad yr Aifft. Peidiwch â cham-drin y weddw na’r amddifad’ (Exodus 22:21–2) yw un o ddeddfau moesol y cyfamod a wnaeth Duw ag Israel. Mae Amos 4:1, Jeremeia 7:6 ac Eseciel 22:29 yn tanlinellu hyn, ac fe alwodd Sechareia ar i drigolion Jwda beidio ‘â gorthrymu’r weddw, yr amddifad, yr estron, a’r tlawd’ (Sechareia 7:9–10).

Dywed fod y gorthrymedig yn dioddef mewn o leiaf dair ffordd:

1. oherwydd amgylchiadau bywyd. Golygfa gyfoes yw gweld pobl ddigartref yn gofyn am arian, yn dioddef o newyn a salwch, yn gaeth i gyffuriau, yn cysgu ar y pafin ac yn nrysau siopau. Yn gynyddol, mae teuluoedd yn methu ymdopi; ni allant wresogi eu cartrefi ac nid oes ddewis ond dibynnu ar y banc bwyd.

2. oherwydd unigrwydd. Er bod eu bywydau’n gyfforddus, mae eraill yn dioddef yn sgil unigrwydd. Gwelodd y Pregethwr ddagrau yn llygaid llawer un am nad ‘oedd neb i’w cysuro’ (4:1).

3. oherwydd nad oes neb yn sefyll o’u plaid. Dyna pam y mae pwyslais yn y Beibl ar warchod aelodau mwyaf diamddiffyn cymdeithas – y weddw, yr amddifad a’r estron.

**Mantais y meirw**

Wrth weld y dioddefaint a’r anghyfiawnder mae’r Pregethwr yn gwneud datganiad syfrdanol, sef fod marw’n rhagori ar fyw. Hwn yw gosodiad mwyaf digalon y llyfr. Yn ei farn ef, mae’n ‘well ar y rhai sydd eisoes wedi marw na’r rhai sy’n dal yn fyw’ (4:2). Mae’n eiddigeddus o’r meirw am fod marwolaeth yn ein harbed rhag dioddef ‘yr holl orthrymderau sy’n digwydd dan yr haul’ (4:1). Yna, â ymhellach gan ddweud mai ‘gwell na’r ddau yw’r rhai sydd eto heb eu geni’ (4:2–3). Ceir yr un meddylfryd gan Job (3:3–26) a Jeremeia (20:14–18).

**Cystadlu neu gydweithredu?**

Er bod yr awdur eisoes wedi dweud bod modd cael mwynhad mewn llafur ac mai rhodd Duw yw hyn, mae’n cyfeirio nesaf at ddau gymeriad sy’n cynrychioli dau begwn yn eu hagwedd at waith: y diwyd a’r diog (4:4–6). Y ‘diwyd’ yw’r bobl sy’n ymdrechu, ac yn ôl pob golwg maent yn llwyddo i gael bywyd cyfforddus, ond talant yn ddrud am hyn drwy fod yn gwbl gaeth i’w gwaith.

Barn y Pregethwr yw mai cenfigen yw’r sbardun i’r fath lafur diflino. Mae’r ysfa i weithio’n rhy galed yn deillio ‘o genfigen rhwng rhywun a’i gymydog’ (4:4). Ni ellir gwadu bod ymroddiad i waith diarbed yn aml iawn yn deillio o fod yn eiddigeddus o lwyddiant eraill.

Ond rhaid cydnabod nad yw’r cysylltiad rhwng llafur a chenfigen yno ym mhob achos. Nid eiddigedd sy’n cymell y gweithiwr tlawd i lafurio’n galed. Os yw am fwydo’i deulu a thalu ei ddyledion, pa ddewis sydd ganddo ond gweithio?

**Diogyn**

Yna, fe dry o’r diwyd i’r diog. Dirmygu’r cystadlu brwd ymysg y diwyd a wna’r diog, a chymryd pob cyfle i osgoi gweithio. Mae ei agwedd yn ennill iddo’r enw ‘ffŵl’ am nad oes ganddo’r synnwyr i sylweddoli ei fod ‘yn ei ddifa’i hun’ (4:5), yn yr ystyr ei fod yn siŵr o lwgu. Ceir sylwadau tebyg yn Llyfr y Diarhebion: ‘Ti ddiogyn, dos at y morgrugyn, a sylwa ar ei ffordd a bydd ddoeth’ (6:6, 9–11 a 10:4–5).

Er y gall llafur fod yn faich, mae’n rhaid i bawb weithio er mwyn i gymdeithas ffynnu. Fe ddylai hyn fod yn amlwg i bob crediniwr. Onid dyna Gyfraith Moses? ‘Chwe diwrnod yr wyt i weithio a gwneud dy holl waith, ond y mae’r seithfed dydd yn Saboth yr ARGLWYDD dy Dduw; na wna ddim gwaith y dydd hwnnw’ (Exodus 20:9–10).

Cyn cloi, tynnir sylw at fywyd gwag y sawl sy’n byw i weithio yn hytrach na gweithio i fyw (adn. 7–8). Am ei fod yn llafurio’n ddibaid, nid oes gan y sawl sydd â’i fryd ar wneud arian gyfle i fwynhau cwmni pobl eraill. Oherwydd ei obsesiwn, nid oes gan y cybydd neb ond ef ei hun i’w feio am ei unigrwydd. Nid yw’r cyfoeth a ddaw o’i holl waith yn rhoi unrhyw foddhad iddo. Pam mae’n ei amddifadu ei hun o bleser a chyfeillgarwch, yn enwedig pan nad oes ganddo neb i etifeddu ei ffortiwn?

**Beth ’dych chi’n feddwl?**

1. Darllenwch adnodau 2 a 3 eto a thrafodwch y sylwadau ‘mai gwell yw cyflwr y meirwon a’r rhai sydd heb eu geni na’r rhai sy’n fyw’. A oes agweddau cyfoes sy’n cyfateb i hyn?
2. A oes gan y Pregethwr unrhyw ymwybyddiaeth o fywyd ar ôl marwolaeth?
3. I ba raddau y mae cenfigen a chystadleuaeth i wneud elw ym myd masnach o fantais i bobl gyffredin?
4. Ym mha ffyrdd y gall cymdeithas wneud mwy i leddfu unigrwydd y sawl sy’n byw ar ei ben ei hun?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Dyrinos …

## David Clement Dyrinos Thomas

*Dyma ail ran teyrnged a dalwyd i Dyrinos Thomas gan y Parchg Owain Llŷr Evans, Minny Street.*

### Thomas

Thomas nesaf, dof yn ôl at Dyrinos yn y man. Roedd ffydd Thomas, Thomas yr Amheuwr wedi'i ysgwyd, ei wyrdroi ond erioed wedi'i chwalu. Roedd ganddo ei gwestiynau, ei amheuon, ei anawsterau ac fe'u mynegodd, eu rhannu, siarad yn agored amdanyn nhw, ac o ganlyniad roedd y Thomas hwn yn dangos i ni wirionedd hanfodol; peidiwch ag ofni cwestiynu eich cred bersonol. Dyna pryd y mae Duw yn fwy sicr o fod yn weithredol o'n mewn.

### Dyrinos

Mae'r enw Dyrinos yn fwy na gwahanol, unigryw ydyw. Beth yw ystyr yr enw felly? Ganed Dyrinos berfedd nos; deryn y nos ydoedd felly: Dyrinos. Gan aralleirio ychydig ar adnod o Ganiad Solomon:

> Wele, y nos a aeth heibio, y glaw a basiodd, ac a aeth ymaith; gwelwyd y blodau ar y ddaear, daeth amser i'r adar ganu ...

Mae ein hannwyl dderyn y nos yn rhydd, daeth yr amser iddo ganu yn ei ryddid, am ei ryddid; daeth yr amser i ni ollwng gafael arno.

Cyflwynwn i Dduw ein hiraeth mawr a naturiol wedi colli ohonom gyfaill mynwesol a theyrngar i'r carn, ond ymgysurwn yn y ffaith fod Dyrinos yn gwbl ddiogel. Sut gallwn ni fod mor sicr? Sut alla i fod mor sicr bod Dyrinos yn cerdded i mewn gyda'r seintiau? Wel, mae i gyd yn yr enw. Yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* ceir cofnod o'r gair dyrein/dyrain, sef llawenydd, eiddgarwch, gorfoledd. Hawdd y gellid dychmygu dyrein/dyrain yn troi'n dyrin, felly Dyrinos yw un sy'n ymgorfforiad o lawenydd, eiddgarwch, a gorfoledd. Am fendigedig! O'r herwydd, i orffen, anogaeth: byddwn yn bobl ddyrin. Ymrown i ddal ati i ddal ati i fod yn ymgorfforiad o lawenydd ffydd, eiddgarwch gobaith a gorfoledd cariad. Hynny, dwi am fentro, a ddymunai Dyrinos ei hun.

# Fy wythnosau cyntaf yn Japan



Helô! Tomos sydd yma, a dwi dair wythnos mewn i fy mlwyddyn yn Japan yn gweithio efo OMF (Overseas Missionary Fellowship).

Ar ôl cyrraedd y Share House yn Tokyo lle byddaf yn byw am y flwyddyn nesaf yma, dwi wedi bod yn symud mewn i'r stafell fydd yn gartref i mi a dod i nabod ychydig o'r 45 arall dwi'n rhannu'r llety gyda nhw! Dwi bron â gorffen llenwi'r holl waith papur sydd ei angen er mwyn cael byw yn Japan, a dwi'n ffodus fod gen i gydweithwyr sy'n barod iawn i helpu i gyfieithu tipyn o'r gwaith papur pan mae Google Translate yn methu! Mae dod i nabod fy nghydweithwyr wedi bod yn bleser llwyr, mae pawb yn OMF Rhyngwladol (cymdeithas o Gristnogion byd-eang ag angerdd dros Ddwyrain Asia sy'n gofalu amdanon ni) wedi bod yn hynod o glên!




Dwi wedi cael fy herio i ddysgu Japaneeg cyn gynted â phosibl. Mae'n bwysig ar gyfer bywyd bob dydd (dwi wedi prynu pethau anghywir yn barod mewn camgymeriad!), ond hefyd er mwyn gallu dangos cariad a pharch at y bobl dwi'n byw ac yn gweithio gyda nhw. Dwi wedi darganfod fod cenhadon tymor hir OMF yn treulio dwy flynedd yn dysgu Japaneeg. Fe wnes i ddysgu chydig ar yr iaith pan oeddwn i'n dal yng Nghymru'n paratoi, ac er fy mod i'n brysur, dwi'n gobeithio gallu gwella fy sgiliau iaith yn gyflym! Mae fy nghapel yma yn un dwyieithog, felly er fy mod i'n deall y pregethu, dwi eisiau gallu cyfathrebu'n well gyda'r mynychwyr Japaneaidd sydd ddim yn hyderus yn eu Saesneg!

Dwi wedi cael cyfle i wasanaethu yn barod, a dwi wedi ymuno ag ambell Zoom lle rydym yn trafod gair Saesneg yr wythnos ac wedyn adnod o'r Beibl! Fi sy'n arwain yr adran gair newydd yr wythnos yma, felly mi faswn i'n gwerthfawrogi gweddi!

Dwi hefyd wedi bod yn mynd i dŷ'r cwpwl sydd yn rhedeg y gwaith yma yn Tokyo efo'r rhai sy'n dychwelyd o dramor, a hynny ar gyfer coginio llwythi o ddanteithion gwahanol ar gyfer caffi'r dychwelwyr misol! Cyfle ydy'r caffi misol i gyfarfod ac annog y rhai sy'n dychwelyd i Japan ar ôl bod dramor ac sydd wedi cael rhywfaint o brofiad o ffydd yn Iesu Grist yn ystod eu cyfnod dramor, efallai, neu wedi dod yn Gristnogion.

Dychmygwch berson o Japan sydd wedi byw dramor am nifer o fisoedd neu rai blynyddoedd. Maen nhw wedi cyfarfod Cristnogion, mynd i eglwysi, wedi clywed yr Efengyl, ac efallai hyd yn oed wedi rhoi eu bywydau i Iesu Grist. Yna, maen nhw'n dychwelyd i Japan ac yn sylweddoli eu bod nhw wedi newid, ond nad ydy Japan ddim. Mae yna angen am ffrind sy'n Gristion i gydgerdded efo nhw ar eu taith a'u helpu i ddod o hyd i le gallan nhw berthyn iddo.

Fel mae'n dangos yn y lluniau, thema ein caffi y mis hwn oedd blasu te. Daeth llawer at ei gilydd a llwyddais innau i ddod i nabod llawer o bobl Japaneaidd ag amrediad o brofiad o'r ffydd Gristnogol. Dwi wedi cael fy ngwahodd i fedydd un ohonynt fis nesaf. Bydd hyn yn bleser ac yn rhywbeth i edrych ymlaen ato!

Dwi'n ddiolchgar iawn fod Duw drwy ei bobl wedi darparu mor hael ar gyfer fy angen ariannol fel fy mod yn gallu byw yma'r flwyddyn hon, ac wedi fy helpu i setlo i mewn yn gyflym! Mi faswn i'n gwerthfawrogi gweddi ar i fwy o ddynion ddod i'r gweithgareddau rydyn ni'n eu cynnal, ac i mi allu cyfarfod yn uniongyrchol gyda nhw ar gyfer astudiaethau Beiblaidd.

***Tomos Edwards,***
***Llanuwchllyn a Japan***

(Mae Tomos yn treulio blwyddyn yn Japan dan faner y mudiad cenhadol OMF) Gallwch barhau i gyfrannu at gostau Tomos, os hoffech, ar y ddolen: www.stewardship.org.uk/partners/tomos

# Golygyddol

## Deffrowch

Pan wnaethom ni fel teulu symud i'n cartref presennol ar draws y ffordd i'r barics yng Nghaerfyrddin yn 1996, roedd hwnnw'n lle eithaf prysur, yn enwedig ar benwythnosau. Roedd loriau'n gyrru mewn i'r sgwâr ymarfer mawr yn gynnar ar fore Sul i gludo cwmni o filwyr mewn lifrai gwyrdd, melyn a du i ymarferion tanio ar fryniau Epynt. Aelodau'r Fyddin Diriogaethol (TAs) oedd y rhain yn bennaf – milwyr wrth gefn, oedd â swyddi eraill yn ystod yr wythnos. Ambell waith byddai hanner dwsin o danciau rhyfel ysgafn yn cael eu lleoli yno am gyfnodau byr. Ond ers rhai blynyddoedd bellach prin fod unrhyw weithgarwch o gwbl yn y barics, oherwydd ers y 1990au mae nifer milwyr llawn-amser byddin Prydain wedi haneru i 75,000, a'r TAs i 14,000.

### Y 'Berthynas Arbennig'

Yn 1993, bues i'n ffilmio cyfres o eitemau i *Newyddion* S4C am TAs o Sir Gâr ar ymweliad gyfnewid gyda'r Oklahoma National Guard. Roedd yr awyren filwrol a fyddai'n ein cludo ni i Tulsa wedi dod â chwmni o'r milwyr Americanaidd i ymarfer ar faes tanio'r Epynt. Dyna un enghraifft fach o'r 'Berthynas Arbennig' gysurus rhwng Prydain a'r Unol Daleithiau ym maes amddiffyn ers yr Ail Ryfel Byd. Ond nawr mae Donald Trump yn anwybyddu'r berthynas trwy fynnu bod Prydain, a gwledydd eraill Ewrop sy'n perthyn i NATO, yn gwario llawer mwy ar amddiffyn.

### Y gost ariannol aruthrol

Ar hyn o bryd mae Prydain yn gwario 2.3% o GDP (*Gross Domestic Product* - sef y mesur o holl werth nwyddau a gwasanaethu'r wladwriaeth) ar y lluoedd arfog, gyda'r bwriad o'i godi i 3%. Cafodd hynny ei wrthwynebu'n gryf gan Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn ein cwrdd chwarter yng nghapel Ffynnon-bedr ger Meidrim ar 8 Medi 2022 – y prynhawn y bu farw'r frenhines Elisabeth, gyda llaw. Cytunwyd na all Prydain fforddio gwario biliynau o bunnau'n fwy ar ehangu ei grym milwrol mewn cyfnod o gynnydd mewn costau byw a'r wasgfa anferth mewn gwariant ar wasanaethau hanfodol fel iechyd a gofal. Gan nad yw pethau wedi gwella dim ers hynny, mae'n arswydus bod y dyn yn y Tŷ Gwyn am i ni godi'r gwariant i 5% o GDP. Yn ariannol, byddai hynny'n golygu codi gwariant blynyddol Prydain ar arfogaeth o'r £60 biliwn presennol i £140 biliwn! Gyda Phrydain yn y fath dwll ariannol yn barod, o ble byddai'r £80 biliwn ychwanegol hyn yn dod?

### Y gost i'n pobl ifanc


Ond tra bod llawer o sôn yn y cyfryngau am y gost ariannol bosib, bach iawn o sylw sy'n cael ei roi i oblygiadau ymarferol y fath gynnydd. Byddai angen denu cannoedd o filoedd o bobl ifanc yn fwy i'r fyddin, y llu awyr a'r llynges Brydeinig, ac fel gweision sifil i weinyddu'r twf militaraidd. Yn ôl y pôl piniwn diweddaraf o blith pobl ifanc 13-27 oed ym Mhrydain (cenhedlaeth Z fel y'u gelwir), dim ond 10% ddywedodd y byddent yn barod i ymladd dros eu gwlad. Yn sicr, nid yw'r golygfeydd erchyll o'r llinell flaen yn Wcráin yn help i ddenu pobl i'r lluoedd arfog. Os na lwyddir i recriwtio'r holl filoedd yna trwy eu *denu*, a fydd yna *orfodi*? Hynny yw, a fyddai enlistio gorfodol yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf ers 1963?

### Byddwn effro!

Byddai'r fath senario yn fêl ar fysedd y garfan gynyddol yr ochr yma i'r Iwerydd sy'n lled-addoli Trump, ac yn awchu am weld Prydain yn rym milwrol pwerus unwaith eto. Fel y rhybuddiwyd yng nghapel Ffynnon-bedr yn 2022 y canlyniad ariannol anorfod fyddai trethi uwch neu dorri ar wasanaethau cyhoeddus. Ond gallai fod goblygiadau mwy pellgyrhaeddol fyth, fel rwy wedi nodi. Y cwestiwn mawr i ni Gristnogion yw: 'Sut ddylem ni ymateb?' Ydym ni am barhau i fyw yn esmwyth a chau ein llygaid i'r datblygiad peryglus hwn, neu ydym ni'n barod i fod yn ddewr a phroffwydol o'r pulpud, mewn cwrdd eglwys, cyfundeb, yr Undeb – ac o fewn cymdeithas yn gyffredinol? Cofiwn fod Iesu wedi galw ei ddilynwyr i fod yn 'halen y ddaear' gan rybuddio nad yw halen sy'n colli ei flas yn werth dim ond i'w daflu allan a'i sathru dan draed (Math. 5:13). Os ydym ni, ei ddilynwyr heddiw, yn rhy ddiflas i herio'r peryglon sy'n wynebu cymdeithas a byd, onid yw hi'n dilyn mai cael ein stablad o dan draed fydd ein hanes ni hefyd?

**Alun Lenny**





*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# NEWYDDION O EGLWYS LLANFAIR PEN-RHYS

*Er bod y Nadolig wedi hen fynd heibio, credwn ei bod yn bwysig i gynnwys yr erthygl isod am y gweithgareddau tymhorol a fu yn Eglwys Llanfair, Pen-rhys. Y mae'n bwysig cael ein hatgoffa yn gyson am y gwaith aruthrol a wneir gan yr arweinwyr yno wrth wasanaethu'r gymuned yn enw Iesu Grist a rhannu cariad Duw yn ymarferol.*

Fel llawer o gapeli ac eglwysi yng Nghymru, roedd dathlu Gŵyl y Geni yn adeg prysur iawn yn Eglwys Unedig Llanfair ym Mhen-rhys. Er gwaetha' Storm Darragh, daeth criw cefnogol o bobl a Siôn Corn i fwynhau ein ffair Nadolig wrth godi arian tag at Gartref Bechgyn Akany Avoko Bevala ym Madagascar ar ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr. Aeth grŵp ohonom i gynnal oedfa garolau yng nghartref nyrsio Millview, Ystrad, gyda'r preswylwyr a'r gofalwyr yn mwynhau ymuno yn y canu. Aethom o gwmpas Pen-rhys i ganu carolau gyda'r plant ac yna 'nôl i'r caffi i dwymo a chael tost a siocled poeth. Daeth pob dosbarth o blant a staff ysgol gynradd Pen-rhys i Lanfair i ganu carolau. Cawsom bedwar parti Nadolig i bobl o wahanol oedran, drama'r Geni yn y capel ar ddydd Sul, 22 Rhagfyr ac yna oedfa garolau ar Noswyl Nadolig.







### Newydd

Yn ogystal â'n gweithgareddau arferol, mae sawl gweithgaredd newydd wedi dechrau gyda ni yn ystod mis Ionawr a Chwefror drwy'r prosiect celfyddydau, 'Tu hwnt i'r Gofyn', e.e. dosbarth gwnïo i oedolion ar fore dydd Sul a bore dydd Mercher i wneud a thrwsio dillad ac addurniadau, clwb crefft gyda phlant ar nos Fercher a nos Iau a dosbarth datblygu sgiliau pobl ifanc ar ddydd Llun.

Ers mis Tachwedd, mae cwmni Trivallis, sy'n berchen ar fwyafrif o'r cartrefi presennol, wedi bod yn trefnu cyfarfodydd misol yn Llanfair i drafod ac ymgynghori gyda phobl leol ar gyfer prosiect cyffrous i adeiladu cartrefi newydd sbon yn ystod y 10 mlynedd nesa. Felly bydd poblogaeth cymuned Pen-rhys yn cynyddu'n sylweddol a bydd mwy o gyfleoedd i Eglwys Llanfair wneud gwahaniaeth yn enw Crist.

**Sharon Rees**

## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2025

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Canolfan Nant Gwrtheyrn
25–27 Mehefin

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 9 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*